OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2019 No. 57

# Rheoliadau Adnabod Ceffylau (Cymru) 2019

## RHAN 1

## Rhagarweiniol

### Enwi, cychwyn a chymhwyso

**1.**—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Adnabod Ceffylau (Cymru) 2019 a, heblaw rheoliad 13(3)(c), daw'r Rheoliadau hyn i rym ar 12 Chwefror 2019.

(2) Daw rheoliad 13(3)(c) i rym ar 12 Chwefror 2021.

(3) Mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys o ran Cymru.

### Dehongli

**2.** Yn y Rheoliadau hyn—

ystyr "ardal ddynodedig" ("*designated area*") yw ardal a ddisgrifir felly yn rheoliad 16;

ystyr "arolygydd" ("*inspector*") yw person a benodir yn arolygydd o dan reoliad 32 neu o dan Ddeddf Iechyd Anifeiliaid 1981(**1**);

ystyr "awdurdod gorfodi" ("*enforcing authority*") yw awdurdod lleol sy'n syrthio o fewn rheoliad 31;

ystyr "ceffyl" ("*equine*") yw anifail carngaled, gwyllt, lled-wyllt neu ddof, o fewn y genws Equus o'r teulu Equidae, a chroesiadau rhwng anifeiliaid o'r fath;

ystyr "ceffyl gwyllt neu led-wyllt" ("*wild or semi-wild equine*") yw ceffyl sy'n syrthio o fewn rheoliad 16(1);

mae i "ceidwad" yr ystyr a roddir i "*keeper*" yn Erthygl 2;

ystyr "corff dyroddi" ("*issuing body*") yw corff dyroddi fel y cyfeirir at "issuing body" yn Erthygl 5(1);

mae i "cosb am beidio â chydymffurfio" ("*non-compliance penalty*") yr ystyr a roddir yn rheoliad 38;

mae i "cosb ariannol benodedig" ("*fixed monetary penalty*") yr ystyr a roddir yn rheoliad 39;

ystyr "costau gorfodi" ("*enforcement costs*") yw'r costau y mae'n ofynnol i berson eu talu o dan hysbysiad adennill costau gorfodi;

ystyr "dogfen adnabod" ("*ID*") yw'r ddogfen adnabod at adnabod ceffyl yn unol â Rheoliad yr UE a'r Rheoliadau hyn;

ystyr "Erthygl" ("*Article*") yw Erthygl yn Rheoliad yr UE;

mae i "hysbysiad adennill costau gorfodi" ("*enforcement costs recovery notice*") yr ystyr a roddir yn rheoliad 40;

(**1**) 1981 p. 22.

mae i "hysbysiad cosb am beidio â chydymffurfio" ("*non-compliance penalty notice*") yr ystyr a roddir yn rheoliad 38;

mae i "hysbysiad cosb ariannol benodedig" ("*fixed monetary penalty notice*") yr ystyr a roddir yn rheoliad 39;

mae i "hysbysiad cydymffurfio" ("*compliance notice*") yr ystyr a roddir yn rheoliad 37;

mae i "milfeddyg swyddogol" yr ystyr a roddir i "*official veterinarian*" yn Erthygl 2;

ystyr "o fewn 24 awr" ("*within 24 hours*") yw cyn diwedd y cyfnod o 24 awr sy'n dechrau â'r amser—

(a) y caiff yr wybodaeth ei chreu neu ei diwygio, at ddibenion rheoliad 15(1)(a); neu

(b) y caiff y corff dyroddi gais Gweinidogion Cymru, at ddibenion rheoliad 15(1)(b),

ond heb gynnwys unrhyw amser nad yw'n rhan o ddiwrnod gwaith; ac at y diben hwn ystyr "diwrnod gwaith" ("*working day*") yw diwrnod heblaw dydd Sadwrn, dydd Sul, dydd Nadolig, Dydd Gwener y Groglith neu ddiwrnod sy'n ŵyl banc o fewn ystyr Deddf Bancio a Thrafodion Ariannol 1971(**2**);

mae i "perchennog" yr ystyr a roddir i "*owner*" yn Erthygl 2;

ystyr "person cyfrifol" ("*responsible person*") yw—

(a) y perchennog; neu

(b) os nad y perchennog sy'n bennaf cyfrifol am y ceffyl o dan sylw o ddydd i ddydd, y ceidwad;

ystyr "Rheoliad yr UE" ("*EU Regulation*") yw Rheoliad Gweithredu'r Comisiwn (EU) 2015/262 dyddiedig 17 Chwefror 2015(**3**) yn gosod rheolau yn unol â Chyfarwyddebau'r Cyngor 90/427/EEC(**4**) a 2009/156/EC(**5**) o ran dulliau adnabod equidae, fel y'u diwygir o dro i dro;

mae i "trawsatebydd" yr ystyr a roddir i "*transponder*" yn Erthygl 2;

mae i "troseddwr" ("*offender*") yr ystyr a roddir yn rheoliad 35(1).

(**2**) 1971 c. 80.
(**3**) OJ Rhif L.59, 3.3.2015, t.1.
(**4**) OJ Rhif L 224, 18.8.1990, t. 55. Diwygiwyd y Gyfarwyddeb gan Gyfarwyddeb y Cyngor 2008/73/EC dyddiedig 15 Gorffennaf 2008 (OJ Rhif. L 219, 14.8.2008, t. 40).
(**5**) OJ Rhif L 192, 23.7.2010, t. 1. Diwygiwyd y Gyfarwyddeb gan Gyfarwyddeb y Cyngor 2013/20/EU dyddiedig 13 Mai 2013 (OJ Rhif L 158, 10.6.2013, t. 234 a chan Benderfyniad Gweithredu'r Comisiwn (EU) 2016/1840 dyddiedig 14 Hydref 2016 (OJ Rhif L 280, 18.10.2016, t. 33).